

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 43 Hydref 26, 2023 50c.

## 'TIR SANCTAIDD'



Mae pob meddwl wedi ei hoelio ar Israel: y Wlad Sanctaidd. *The Holy Land*. Os sanctaidd y wlad honno, sydd ers wythnosau wedi taflu taflegrau'n drwch i Gaza, beth yw ffynhonnell y sancteiddrwydd hwnnw? Pam mae'r ansoddair 'sanctaidd' wedi glynu mor dynn wrthi? Yn ôl ysgrythurau'r Cristion,

yr Iddew a'r Mwslim mae'r wlad hon yn sanctaidd nid ohoni ei hun. Nid oes sancteiddrwydd yn ei mynyddoedd a dyffrynnoedd. Fe dardd ei sancteiddrwydd o'r Hwn sydd piau hi.

Beth felly yw pwysigrwydd syniad hwn? Yn syml, stiwardiaid yw cenedl Israel, ac nid perchennog. Duw sydd piau'r Wlad Sanctaidd. Gwelir hyn yn amlwg ddigon yn y Beibl. Gan gyfeirio at y Flwyddyn Sabothol, mae Duw yn rhybuddio'i bobl:

**eiddof fi yw'r tir, ac nid ydych chwi ond estroniaid a thenantiaid i mi**  
(Lefiticus 25:23)

Nid Israel sydd piau'r tir, ac felly, nid Israel sydd piau'r hawl i wneud a'r tir fel y gwêl yn dda. Nid oes ganddi'r hawl i berchenogi, i ddifrodi, i hawlio, ac ymgartrefu lle y myn. Yn hytrach disgwylir iddi greu o'r tir, gan weithio gyda'i chymdogion, wlad sydd yn adlewyrchu trugaredd a thosturi'r Hwn sydd berchen y tir: 'eiddof fi yw'r tir, ac nid ydych chwi ond estroniaid a thenantiaid i mi.' Dim ond pan mae'r tir a'i phobl – hen a newydd – yn cael eu parchu fel eiddo Duw, fel plant iddo, y daw'r tir yn eiddo i'r bobl.

Yn unol â dysgeidiaeth y proffwydi, ac Iesu hefyd, mae gwrthod ymgorffori'r syniad mai ... 'eiddof fi yw'r tir, ac nid ydych chwi ond estroniaid a thenantiaid i mi ...' yn arwain at golli'r hawl i fyw ar y tir. Dyma un o hanfodion y ddealltwriaeth broffwydol o alltudiaeth.

**Ai teg sôn am Israel fel y Wlad Sanctaidd tybed?**

Fe ellid dadlau ein bod ni'n disgwyl mwy gan Israel nag y disgwylwn gan ein hunain fel cenedl. Pam rhaid i Israel fod yn genedl sanctaidd a neb arall? Pam rhaid i Israel ymatal rhag trais a ninnau ac ôl ein traed yn waedlyd yn Irac ac Afghanistan? Buaswn am droi'r ddadl honno ar ei phen, gan mi gredaf fod yr egwyddor a welir yn y geiriau hyn o Lefiticus: 'eiddof fi yw'r tir, ac nid ydych chwi ond estroniaid a thenantiaid i mi' yn llawer mwy pellgyrhaeddol hyd yn oed na gwewyr Gaza. Egwyddor ydyw i bawb, i bob cymdeithas a chenedl. Egwyddor i'r byd ydyw. I newid ychydig ar eiriau awdur Lefiticus, heb wneud cam ag ef o gwbl:

**eiddof fi yw'r byd, ac nid ydych chwi ond estroniaid a thenantiaid i mi ...**

Mae'r cyfan oll yn eiddo i Dduw, ac i Dduw yn unig a ninnau'n denantiaid. Pa genedl bynnag a berthynwn iddi, eiddo Duw ydyw,

## Salm 117

Molwch yr Arglwydd, yr holl genhedloedd: clodforwch ef, yr holl bobloedd. Oherwydd ei drugaredd ef tuag atom ni sydd fawr: a gwirionedd yr Arglwydd a bery yn dragywydd. Molwch yr Arglwydd.

Pwy a folir? **Molwch yr Arglwydd** ... Dyna wrthrych y mawl – creawdwr pob peth a chynhaliwr pawb. Ef yn unig sydd yn deilwng o fawl.

ac fe ddylai ei bywyd, ei hymwneud â gelyn a chyfaill fel ei gilydd fod yn glod i Dduw ac yn fendith i bobl. Ac yn hynny o beth ni all yr un wlad sefyll mewn barn ar Israel. Pa hawl, o ddifri sydd gan bobl yr Unol Daleithiau a Phrydain i fynnu fod Israel yn peidio gwneud yr hyn a fuom ni'n gwneud ers blynyddoedd yn Irac ac Afghanistan?

Gwlad Sanctaidd yw Israel, mewn byd sanctaidd. Nid yr Israeliaid, na'r Palestinaid sydd piau'r tir. Duw yw'r perchennog ac mae'r syniad hwnnw'n hawlio ganddynt barodrwydd i rannu'r tir, rhannu a fydd yn bodloni neb wrth gwrs, ond rhannu a fydd yn rhoi taw ar y gynau, yn rhoi terfyn ar y derfysgaeth a'r ymgyrchoedd milwrol fel ei gilydd. Dim ond o dderbyn 'eiddof fi yw'r tir, ac nid ydych chwi ond estroniaid a thenantiaid i mi' bydd pobl y llain fechan fach honno o dir rhwng yr anialwch a'r môr yn gallu greu o'r tir cenedloedd a fydd wrth fodd perchennog eu tir.

**Neges syml syber**

Un dyfyniad bach o'r Qur'an i orffen, adnod ac ynddi neges syml syber i Gristnogion, Iddewon a Mwslimiaid y byd o'r cyfieithiad Saesneg o'r Qur'an: Muhammad sy'n siarad, 'O! People of the Book! ye have no ground to stand upon unless ye stand fast by the Law, the Gospel, and all the revelation that has come to you from your Lord.' (5:68)

Owain Llŷr



# MYFYRDOD O'R BEIBL

## Y Beibl a'i bobl (3): Joseff

Y cymeriad pwysig nesaf yn stori fawr y Beibl yw Joseff. Rydym yn clywed ei stori yn niwedd llyfr Genesis (penodau 37–50). Mae stori Joseff yn un hynod o adnabyddus ac yn destun poblogaidd ar gyfer dosbarthiadau'r ysgol Sul. Ar ôl i Andrew Lloyd Webber gyfansoddi ei sioe gerdd enwog Joseph and the *Amazing Technicolor Dream Coat*, daeth hanes Joseff hyd yn oed yn fwy cyfarwydd.

### Hanes yn un syml a chofiadwy

Un o ddeuddeg mab Jacob yw Joseff. Gan fod Joseff yn fab i Rachel (hoff wraig Jacob), ef oedd ei ffefryn ac roedd Jacob yn trin Joseff yn wahanol i'w feibion eraill (Genesis 37:3). Yn wir, gan fod Jacob mor hoff o Joseff mae'n gwneud 'gwisg laes' iddo ef ac nid yw'n cynnig y fath wisg i'w frodyr eraill. Mae ffafriaeth Jacob yn warthus ond nid yw Joseff yn helpu ei hunan chwaith. Yn hytrach na bod yn ostyngedig a gwylaidd, mae'n hynod o falch a haerllug o'i statws gan ddangos ei hun o flaen ei frodyr. Er bod Duw wedi'i fendithio â breuddwydion rhyfeddol sy'n proffwydo'r dyfodol (Genesis 37:5–11), mae Joseff yn brolio am gynnwys y breuddwydion o flaen ei frodyr.

### Cynllun gwarthus

Mae brodyr Joseff yn arbennig o genfigennus ohono (Genesis 37:11), felly maent yn gwneud cynllun gwarthus i gael gwared



ohono. Mae'r brodyr yn taflu Joseff i mewn i bydew dwfn a'u bwriad yw ei adael yno i lwgu a marw. Er hynny, mae un o'i frodyr o'r enw Reuben yn ymyrryd (Genesis 37:21) gan annog iddynt beidio â'i ladd. Mae Reuben yn llwyddo i'w darbwyllo. Yn hytrach na'i ladd, maent yn ei werthu i griw o Ismaeliad sy'n pasio trwy eu gwlad. Dyw pethau ddim yn edrych yn dda i Joseff. Mae'r Ismaeliad yn gwerthu Joseff fel gwas i ddyn o'r enw Potiffar, un o swyddogion pwysicaf Pharo, Brenin yr Aifft (Genesis 37:36). Er mor ffôl a balch oedd Joseff, mae Duw yn ei warchod a'i fendithio yng nghartref Potiffar. Yn wir, o dan fendith Duw, mae Joseff yn dod yn 'wr

llwyddiannus' (Genesis 39:2) ac mae Potiffar yn ei benodi yn 'arolygydd ar ei dŷ a rhoi ei holl eiddo dan ei ofal.' (Genesis 39:4). Mae Joseff nawr yn ddyn gwahanol: mae'r profiad o gael ei daflu i'r pydew a'i gludo i'r Aifft wedi ei newid yn llwyr. Nid yw'n ddyn balch rhagor; yn hytrach mae'n ymddiried yn Nuw ac yn dibynnu arno.

### Gwraig Potiffar

Pan mae gwraig Potiffar yn ceisio ei demtio a'i hudo, mae Joseff yn driw i Dduw ac nid yw'n cysgu gyda hi. Oherwydd ei ffyddlondeb i Dduw, mae gwraig Potiffar yn ei gyhuddo ar gam o gymryd mantais ohoni (Genesis 39:16). Mae Joseff yn cael ei daflu allan o'r tŷ a'i gloi yn y carchar. Mae'r sefyllfa yn edrych yn gwbl anobeithiol. Er hynny, hyd yn oed yn y carchar, mae Duw yn cofio am Joseff. Mae'n bendithio Joseff gyda'r ddawn i ddehongli breuddwydion ac mae'n dehongli breuddwyd dau o'i gyd-garcharorion yn gywir (Genesis 40).

### Breuddwyd

Yna, pan mae Pharo'n cael breuddwyd sy'n ei gynhyrfu, mae'n troi at Joseff i gael dehongliad o'i chynnwys (Genesis 41). Ar ôl i Joseff ddehongli breuddwyd Pharo'n gywir, mae Pharo yn ei benodi yn brif weinidog yr Aifft. Fel prif weinidog, fe yw'r person pwysicaf yn y wlad oni bai am Pharo ei hun. Pan mae newyn enbyd yn dod i wlad Jacob a'i feibion, maent yn mudo i wlad yr Aifft gan fod bywd ar gael yno. Wedi iddynt gyrraedd yr Aifft, maent yn cwrdd â Joseff – er nad ydynt yn ei adnabod yn syth. Mae gan Joseff bob hawl i fod yn ddig â'i frodyr am ei drin mor wael ac am ei werthu fel gwas. Er hynny, mae Joseff yn dewis eu caru a'u bendithio gan ei fod yn gwybod mai cynllun Duw oedd y cyfan.

### Sefyllfa anffafriol – bendith anhygoel

Yr hyn sy'n drawiadol am stori Joseff ydy'r ffordd mae Duw yn defnyddio sefyllfa anffafriol i ddod â bendith anhygoel. Nid oedd sefyllfa Joseff yn ymddangos fel un ddelfrydol – roedd ei frodyr wedi ceisio ei ladd gan ei daflu i mewn i bydew; roedd wedi cael ei werthu fel gwas i'r Ismaeliad; roedd wedi cael ei gyhuddo ar gam gan wraig Potiffar; roedd wedi cael ei daflu i'r carchar yn ddiachos gan aros yno am sawl blwyddyn. Ond, er mor dywyll mae'r sefyllfa'n edrych, dyma oedd cynllun Duw ac mae Duw yn

defnyddio'r holl brofiadau hyn i ddod â bendith i Joseff a'i deulu. Roedd Duw wedi cynllunio'r cyfan ac wedi sicrhau mai Joseff oedd prif weinidog yr Aifft pan oedd newyn yng ngwlad Jacob. Fel prif weinidog, roedd mewn lle i'w bwydo â'u cynnal pan oeddent mewn angen difrifol. Er y profiadau caled, cafodd Joseff a'i deulu cyfan eu bendithio gan Dduw yn y pen draw. Mae Joseff yn sylwi ar hyn yn Genesis 50:20 pan mae'n dweud hyn wrth ei frodyr:

**'Yr oeddech chwi'n bwriadu drwg yn f'erbyn; ond trodd Duw y bwriad yn ddaioni, er mwyn gwneud yr hyn a welir heddiw ...'**

Mae hanes Joseff yn ein hatgoffa ni fod Duw yn gallu defnyddio sefyllfaoedd a phrofiadau caled i'n bendithio yn y pen draw. Mae'n bosibl ein bod ni'n wynebu sefyllfa anodd ar hyn o bryd. Efallai ein bod yn sâl, efallai ein bod yn dioddef, efallai ein bod yn strygo gyda rhywbeth yn ein bywyd personol neu ein bywyd teuluol. Efallai ein bod ni'n gofyn: Oes gan Dduw gynllun ar fy nghyfer i pan rwyf yn wynebu'r fath bethau caled? Ateb y Beibl yw 'oes'! Mae gan Dduw gynllun ar ein cyfer ac mae'n gallu defnyddio hyd yn oed profiadau caled i ddod â bendith yn y pen draw.

Gwilym Tudur

## TASG Y MILWR

Defnyddiwch lythyren gyntaf yr enw ym mhob adnod i greu enw milwr Beiblaidd

Mae'r ateb ar dudalen 6.

- Ymerawdwr a orchmynnodd i'r holl Iddewon fynd allan o Rufain – Actau 18:2
- Gŵr a fu'n gysur i Paul yn Rhufain ac Efeesus – 2 Timotheus 19
- Dinas y bu Paul yn garcharor ynddi.
- Cristion Rhufeinig y gyrrodd Paul ato ef, ynghyd â'i chwaer – Rhufeiniad 16:15
- Gŵr a ddaeth a rhoddion o un o eglwysi Macedonia i Paul – Philipiaid 4:18
- Milwr Rhufeinig a achubodd fywyd Paul ddwywaith – Actau 23:26 – 24:22
- Dinas lle bu'r Iddewon yn cyffroi meddyliau'r Cenhedloedd yn erbyn y Cristnogion – Actau 14:2
- Roedd Eliffal yn fab i hwn – 1 Cronicl 11:35
- Thesaloniaid a aeth gyda Paul ar un o'i deithiau – Actau 20:4

# Yr Adran Gydenwadol

## Rhifyn Hydref o'r Traethodydd yn talu teyrnged i'r cyn-olygydd Dr Brynley F. Roberts

Mae'r rhifyn cyfredol o'r *Traethodydd* yn talu teyrnged i un o'n cymwynaswyr mawr, sef y diweddar Ddr Brynley F. Roberts, cyn-olygydd y cylchgrawn, a fu farw yn ystod yr haf. Bu Bryn yn olygydd *Y Traethodydd* rhwng 1999 a 2016 ac ef a osododd y seiliau ar gyfer y cylchgrawn o ddechrau'r ganrif hon ymlaen.


Yn ogystal â gair o werthfawrogiad gan y golygydd presennol, ceir teyrngedau gan Robert Rhys, yn sôn am flynyddoedd Bryn fel Athro'r Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe yn ystod saithdegau ac wythdegau'r ganrif ddiwethaf a chan Mary Burdett-Jones, sy'n tafoli ei gyfraniad fel ein Llyfrgellydd Cenedlaethol. Mae Delyth Morgans Phillips, awdur *Cydymaith Caneuon Ffydd*, yn trafod ei waith fel cyfarwyddwr a golygydd y llyfr emynau pwysfawr a enillodd ei le'n rhyfeddol o ddiraffferth ymhlith addolwyr yr eglwysi, ac mae'r Athro Gruffydd Aled Williams yn canolbwyntio ar waith Bryn fel golygydd *Y Traethodydd*, y gyfres gyfrolau 'Dawn Dweud' a'r *Bywgraffiadur Cymreig*, ymhlith mentrau eraill.

Mae mwy nag un o'r awduron yn tanlinellu pa mor eang oedd ei ddi-ddordebau academaidd, o'r Canol Oesoedd hyd at y cyfoes, ac yn talu sylw i'w gampwaith ar Edward Lhwyd, y naturiaethwr a'r hynafiaethwr, a gyhoeddwyd y llynedd ac y cafwyd adolygiad manwl arno yn rhifyn diwethaf *Y Traethodydd*. Gan na fynnai Bryn dynnu dim sylw ato'i hun, bu angen ein hatgoffa pa mor allweddol fu ei gyfraniad i'n bywyd diwylliannol a chrefyddol am gyhyd a chymaint yw'r golled a adewir ar ei ôl. Anrhydedd, felly, yw talu gwrogaeth hael iddo yn y rhifyn hwn.

Ar wahân i'r uchod, prif erthygl y rhifyn yw darlith hynod gyfoethog y Dr Rosa Hunt, cyd-bennaeth Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, a gweinidog eglwys y Tabernacl yn y brifddinas, sy'n trafod y cysyniad o gyfieithu yn ein crefydd. Nid cyfieithu'r Ysgrhythurau o'r ieithoedd gwreiddiol, yr Hebraeg a'r Groeg, i Saesneg neu Gymraeg yn unig sydd ganddi, ond y cysyniad fod Duw ei hun wedi'i ddatguddio'i hun mewn Gair sydd yntau'n gyfieithiad o'i fwradau achubol i'n teithi dynol ni.

Fel yn achos darlith Rowan Williams y llynedd (a ymddangosodd yn rhifyn Ionawr o'r *Traethodydd*), fe'i traddodwyd fel darlith flynyddol Urdd Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan, ac mae'n gyforiog o amgrymiadau hynod berthnasol ynghylch natur ein hiaith addoli a'r heriau cenhadol sy'n bod mewn cymdeithas amlieithog. Nid un Gymraeg sy'n bod bellach ond llawer, yn adlewyrchu amrywiaeth gymhleth y Gymru cyfoes, ac mae'r dadansoddiad treiddgar a gwybodus hwn yn cynnig arweiniad inni ynghylch sut i ymateb i hynny. Mae'r awdur, sy'n frodor o Ynys Malta, yn llais newydd a chyffrous yn y Gymru Gymraeg, a mentrwn broffwydo y daw'n fwyfwy amlwg dros y blynyddoedd nesaf. Ceir sôn am ei phererindod yn yr ysgrif, ac anogwn bawb i ddarllen yr ymdriniaeth hon a'i hystyried yn ddwys.

Nid yw'r beirdd wedi'u hanwybyddu yn y rhifyn hwn, a phleser yw cael cyhoeddi cerddi newydd gan Derec Llwyd Morgan a cherdd arall gan yr amryddawn D. Ben Rees. Yna ceir y cyfraniad olaf



ynghyffres ddiddorol Pryderi Llwyd Jones ar feirdd y ffin. George Herbert a Thomas Traherne oedd y ddau fardd cyntaf ganddo, a'r tro hwn mae'n cwblhau ei astudiaeth drwy sôn am y Cymro Cymraeg a'r bardd gwych hwnnw, Henry Vaughan 'y Silwriad'. Gwnâi'r gyfres hon o ysgrifau, o'u casglu ynghyd, gyfrol ardderchog a fyddai'n gaffaeliad i'n bywyd diwylliannol. I gloi'r cwbl mae'r Golygydd yn cynnig arweiniad i feddwl a gwaith un o ddiwinyddion pwysicaf ail hanner yr ugeinfed ganrif a dechrau'r ganrif hon, sef Jürgen Moltmann. Gobaith yw themau'r ysgrif, sy'n seiliedig ar ei waith mawr cynnar, *Diwinyddiaeth Gobaith* (1967).

Yn ôl ein harfer, anogwn bawb nid yn unig i ddarllen y rhifyn hwn o'r *Traethodydd*, ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan [www.ytraethodydd.cymru](http://www.ytraethodydd.cymru). Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan ([d.d.morgan@pcdds.ac.uk](mailto:d.d.morgan@pcdds.ac.uk)), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Joanna Thomas-Wright ([joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru](mailto:joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru)), Swyddfa Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

EGLWYS BRESBYTERIAIDD CYMRU  
Henaduriaeth South East Wales



### Gweithiwr Ieuenctid a Chymunedol

Mae Henaduriaeth South East Wales Eglwys Bresbyteriaidd Cymru am benodi Gweithiwr Ieuenctid a Chymunedol i hyrwyddo gweinidogaeth plant, ieuenctid a theuluoedd, i roi cyfle i ddarganfod a dilyn Iesu Grist.

- Oriau:** 21 awr yr wythnos, gyda gweithio hyblyg i gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau
- Cytundeb:** 3 blynedd gyda'r 6 mis gyntaf yn gyfnod prawf
- Cyflwg:** £24,726 i £26,949, band 22-26. Gall y band gynyddu hyd at £27,504-£29,727, band 27-31, yn dibynnu ar lefel y cymwysterau a'r profiad
- Lleoliad:** Gweithio o gartref ac yn Henaduriaeth South East Wales.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirdd boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol yn berthnasol i'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch â: e-bost - [Shanta.Rupalia@ebcpcw.cymru](mailto:Shanta.Rupalia@ebcpcw.cymru)

Ffôn - 02920 627465

Dyddiad Cau: 3 Tachwedd 2023 am 4yp.

## Bwletin Polisi Cytûn (Hydref-Tachwedd)



Ym Mwletin Polisi Cytûn y tymor hwn fe geir gwybodaeth am ymdrechion i sefydlu Sul Cofio Covid a manau yng Nghymru fydd yn cael eu neilltuo ar gyfer cofio effaith ac ôl Covid arnom.

Ceir erthygl ar y diweddaraf o ran beth y gall yr eglwysi ei wneud i weithredu ar Newid Hinsawdd a dolen i sgwrs am gaplaniaeth carchardai gan yr Hybarch Jamer Ridge, Caplan Cyffredinol Carchardai a Gwasanaeth Prawf Ei Fawrhydi.

Bu Cytûn wrthi ers tro bellach yn ymchwilio i hanes y ddeiseb heddwch a anfonwyd gan eglwysi Cymru yn sgil deiseb merched Cymru ym 1924. Hon oedd y weithred eciwmenaidd

Gymreig gyntaf ar ôl datgysylltu'r Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru. Ceir peth cefndir yn y rhifyn presennol ac edrychwn ymlaen at ragor o gofio eciwmeniaeth ac ymdrechion heddwch yr eglwysi yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd nesaf yma.

Ceir gwybodaeth am nifer o faterion polisi pwysig ac am sgwrs a gynhelir yn y Senedd gan y Farwnes Finlay o Landaf, aelod o Dŷ'r Arglwyddi, Athro Anrhydeddus Meddygaeth Liniarol, Prifysgol Caerdydd, ar 15 Tachwedd am y ddadl dros gymorth i farw.

I ddarllen y bwletin cyfan, cliciwch ar y ddolen: <https://www.cytun.co.uk/hafan/bwletin-polisi-hydref-tachwedd-2023/>

## Annie Cwrt Mawr

Drama un ferch yn seiliedig ar fywyd Annie Jane Hughes Griffiths, ymgyrchydd dros heddwch a roddodd lais i fenywod Cymru ar gydraddoldeb a materion rhyngwladol.

Awdur: Siwan Jones  
Cyfarwyddwr: Janet Aethwy  
Cast: Anni Dafydd



Gellir cael manylion am y daith sy'n digwydd drwy Gymru hyd 17 Tachwedd drwy ddilyn y ddolen hon i wefan y cwmni drama 'Mewn Cymeriad':

[Annie Cwrt Mawr | Mewn Cymeriad](#)

## Llywydd newydd Synod Cenedlaethol Cymru, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig

Mae'r Parch. David Salsbury wedi'i enwebu i wasanaethu fel Llywydd Synod Cenedlaethol Cymru, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig (EDdU), ar ôl i'r Parch. Simon Walking symud i fod yn weinidog ar ofalaeth Abertawe ym mis Medi.

Cafodd David ei ordeinio yn 2000 ar ôl hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth yng Ngholeg Westminster yng Nghaergrawnt, gan raddio gyda gradd Baglor Diwinyddiaeth ar gyfer Gweinidogaeth o Brifysgol Caergrawnt.

Ers 2018 mae wedi gwasanaethu fel Rheolwr Stepwise a'r Rhaglen Dysgu Digidol i'r Eglwys Ddiwygiedig ac mae'n aelod o'r tîm Addysg a Dysgu yn Church House.

Dechreuodd David ar ei weinidogaeth yn gwasanaethu dwy eglwys yn Abertawe cyn symud i ogledd Cymru yn 2005 i fod yn Weinidog ar eglwysi Dyserth a Threffynnon a Swyddog Hyfforddiant a Datblygu (Gogledd) Synod Cenedlaethol Cymru.

Tra oedd yn y gogledd gwasanaethodd hefyd fel Cynullydd y Pwyllgor Bugeiliol Rhanbarthol ac, am bum mlynedd, fel llywodraethwr Coleg y Gogledd ym Manceinion.

Wrth siarad am ei enwebiad, dywedodd David ei fod yn 'llawn cyffro ac yn ostonweddi' o gael ei alw i ddarparu'r

weinidogaeth fugeiliol gan wasanaethu fel Llywydd Synod Cenedlaethol Cymru.

"Bydd yn ffrainc enfawr gweithio ochr yn ochr â Thîm Cefnogi'r Synod, eglwysi, gweinidogion, lleygwyr a phartneriaid eciwmenaidd wrth i ni gyda'n gilydd ddirnad dyfodol Duw i'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Nghymru, gwasanaethu ein cymunedau a pharhau i ddysgu beth mae'n ei olygu i fyw fel disgyblion Iesu," meddai.

Mae cyfraniadau ehangach David i'r Eglwys wedi cynnwys gwasanaethu fel Ysgrifennydd Pwyllgor Cydraddoldeb yr URC ers 2017, ac mae'n aelod o un o'r grwpiau gorchwyl sy'n datblygu hyfforddiant fel rhan o ymrwymiad yr Eglwys Ddiwygiedig i ddod yn eglwys wrth-hiliaeth. Ers 2020 mae hefyd wedi bod yn Gydlynnydd Rhaglen Arweinyddiaeth Eglwysig yr enwad.

Yn ei amser hamdden mae David yn mwynhau cerdded, nofio ac ychydig o seiclo 'tywydd teg'. Mae'n gefnogwr brwd o Glwb Pêl-droed Lerpwl, ac ar ôl byw yng Nghymru am 23 mlynedd mae'n gefnogwr mabwysiedig i dîm Rygbi Cymru.

Dywedodd Megan Pryce, Clerc Synod Cenedlaethol Cymru: "Rydym wedi elwa o weinidogaeth feddylgar David yng Nghymru ers blynyddoedd lawer. Rydym wrth ein bodd ei fod wedi derbyn yr



alwad i wasanaethu fel Llywydd newydd Synod Cenedlaethol Cymru ac edrychwn ymlaen at ei groesawu i'r tîm a chymryd y cam nesaf gyda'n gilydd."

Dywedodd y Parch. Philip Brooks, y Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol (Cenhadaeth): "Mae'n bleser mawr gen i longyfarch David ar ei enwebiad fel Llywydd Synod Cenedlaethol Cymru. Bydd David yn dod ag ehangder o brofiad i'r rôl hon, gan symud ymlaen o'i swyddi yn Church House.

"Mae David wedi cyflawni ei weinidogaeth yng Nghymru, mewn gofalaethau lleol, fel caplan ac mewn rolau hyfforddi, a bydd pob un o'r rhain yn ei ysbrydoli fel Llywydd. Wedi gwasanaethu gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb, mae David hefyd yn dod ag angerdd dros gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i'r swydd."

# Gair Duw ar Waith gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrnodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 5

'Y Gair ar waith' – Lesotho Mathew 25:31–46 | 29 Hydref



gallent barhau'r gwaith wrth i Gwenallt a Non gydnabod na allant ymrwymo i fod yn weithredol fel arweinwyr bellach. Ar ysgwydd pwy mae llaw Duw yn gorffwys mewn perthynas â'r gwaith hwn, tybed?

## Gweddi

Arglwydd y cenedloedd oll, diolch am arwain y Tabernacl i berthynas â'r eglwys yng nghanol dinas Maseru yn Lesotho. Gwerthfawrogwn y gwaith a wnaed eisoes, a gweddiwn am weld rhywrai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb o fod yn ddolenni ymarferol i'r dyfodol. Amen.

## Cwestiynau i'w hystyried

1. Bu haelioni a lletygarwch yn nodweddion cyson ym mywydau Iddewon a Christnogion, ond a ellir tystio i ffydd bersonol heb ei gweithredu, neu a yw bywyd gweithredol dda yn ddigon ac nad oes angen manylu ar natur ffydd ac arfer addoliad yn gyson?
2. Galwodd Martin Luther ac eraill Epistol Iago yn 'epistol o wellt', gan nad oedd ei chynnwys yn dweud llawer am gyfiawnhad drwy ffydd. Beth yw'r perygl o arfer ffon fesur debyg wrth ddarllen a myfyrio ar y Beibl?
3. Ymateb i wahoddiad Undeb Bedyddwyr Cymru wnaeth Eglwys y Tabernacl, ond teimlodd Gwenallt a Non fod Duw yn agor drws iddynt. A fyddwch chi yn eich eglwysi'n gwrandao ar lais Duw i'ch arwain i brofiadau a chynlluniau annisgwyl a chyffrous, newydd?
4. Roedd dysgu am Lesotho yn ysbrydoliaeth i amryw yn y Tabernacl. Pa fath o sefyllfa eglwysig dramor y carech ddeall mwy amdani?
5. Mae economi Lesotho yn heriol, y cynaeafau'n methu, ac eto, mae llawenydd yn eu cymunedau. Pam mae pobl Ewrop a Chymru yn benodol mor gwynfanllyd, yn hunanol ac yn ymbellhau o fywyd eglwys?

## Gweddi

Arglwydd yr eangderau a Duw tragwyddoldeb, addolwn di am gyffwrdd â'n hamgylchiadau a'n hamseroedd, gan ddolennu pobl â'i gilydd. Dyro i ni weld y dolennu hwn fel rhan o'n haddoliad a'n hargyhoeddiadau ysbrydol, ac yn wedd ar ein bywyd eglwysig. Amen.

**Darlleniad: Mathew 25:31–46**

## Cyflwyniad

Pan ymatebodd y Tabernacl, Caerdydd, yn gadarnhaol i'r gwahoddiad i efeillio â'r Lesotho Evangelical Church (LEC) yn Sefika, roeddem yn ffodus fod Non a Gwenallt Rees yn gyfarwydd â Lesotho ac yn hapus i arwain y prosiect. Fe roddodd y ddau bymtheng mlynedd ymdrechgar i ddatblygu'r cyswllt, a hynny ar gost sylweddol iddynt eu hunain. Oni bai am eu hymdrech, prin y byddai'r fenter wedi bod mor llwyddiannus. Nid yw ein geiriau o werthfawrogiad yn ddigonol, ond roeddent yn falch o'r cyfle i roi'r 'Gair ar waith' ac yn trysori'r profiadau cyfoethog a ddaeth i'w rhan.

Elfen bwysig yn y prosiect hwn oedd gweld cefnogaeth eglwysig eraill yn rhannu ynygwaith, a bu Non a Gwenallt yn gwneud cyflwyniadau mewn eglwysig ac ysgolion, a hwythau yn eu tro'n dolennu yn y gwaith ac yn cyfrannu'n gyson yn ariannol i'r fenter. Cydnabyddwn hynny yn llawen ac yn ddiolchgar.

Bydd pawb sydd wedi gwrandao ar eu stori ac ymddiddori yn y prosiect yn sylweddoli bod brwdfrydedd eglwysig y cyfeillion yn Sefika wedi bod yn ysbrydoliaeth i

ni. Mae'n anodd amgyffred sut mae'r gynulleidfa yno'n cefnogi ei gilydd ac yn gweld llaw Duw ym mhob man a hynny er daioni.

## Myfyrdod

Aeth yn ffasiwn i ddweud na ddylai'r eglwys ymwneud â materion gwleidyddol yn gyffredinol, ac mai gwaith yr eglwys yw canolbwyntio ar addoliad – yr eglwys oddi mewn i'r adeilad. Ond gwelir mai un o nodweddion yr eglwys yn gyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn yw ei bod wedi ymestyn allan a dwyn sylw at anghyfiawnderau byd a sefyll ochr yn ochr â'r gwan a'r gorthrymedig. Daw cyfleoedd eto i nodi enghreifftiau o hyn yn y gyfres bresennol o fyfyrnodau, ond wrth ddathlu llwyddiant y prosiect hwn gydag eglwys LEC Sefika yn Lesotho, gwelwyd sut mae angen nawdd gydag addysg, amaethyddiaeth, meddygaeth a bwyd i roi'r Gair ar waith mewn mannau pellennig nad ydynt yn cael sylw'r wasg Brydeinig. Pryd y gwelwyd erthygl yn y wasg Brydeinig am argyfyngau Lesotho? Sawl ardal arall na wyddom ddim amdanynt sy'n angof o safbwynt gwledydd cyfoethog y gorllewin?

Ai cyd-ddigwyddiad gweinyddol a arweiniodd at ein cyswllt ni gyda Sefika, a digwydd bod i Gwenallt a Non Rees fod yn aeddfed i hyrwyddo'r cyswllt? Neu a welwn law Duw ar waith, a bod pob aelod o'r eglwys angen gofyn sut fydd Duw am ein defnyddio ni yn rhwydwaith gofali ei gynllun tragwyddol ef? Rydym yn holi'n weddigar pwy fydd yn synhwyro y

S4C

**Dechrau Canu, Dechrau Canmol**  
Sul, 29 Hydref, am 7.30 yh

### Corff, Meddwl ac Enaid

Bydd Lisa Gwilym ym Mhen-y-bont ar Ogrwr i gwrdd â'r Parchedig Dylan Rhys, hen frind o'r gyfres *Ffit Cymru* sydd wedi trawsnewid ei fywyd – corff, meddwl ac enaid. Cawn wledd o ganu mawl a mwynhau perfformiad hudolus gan Rebecca Trehearn.

BBG radio cymru

**Caniadaeth y Cysegr**

Sul, 29 Hydref, am 7:30yb a 16:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parchedig Eileen Davies

**Sul, 29 Hydref, am 12yp**

Bydd Trystan Owain Hughes yn arwain oedfa arbennig ar Sul Adferiad

I weld y cyhoeddiad digidol [Cenn@d](mailto:Cenn@d) yn llawn, dilynwch y ddolen hon: [www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)

(Cyhoeddwr [Cenn@d](mailto:Cenn@d) ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# LLAIS O'N DOE

Myfyrdod gan y diweddar  
Barchedig Eifion Powell 1934–2009

## Tair thema

Yna dywedodd rhai o'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid wrtho, 'Athro, fe garem weld arwydd gennyt.' Atebodd yntau, 'Cenedlaeth ddrygionus ac annuwiol sy'n ceisio arwydd, eto ni roddir arwydd iddi ond arwydd y proffwyd Jona. Oherwydd fel y bu Jona ym mol y morfil am dri diwrnod a thair nos, felly y bydd Mab y Dyn yn nyfnder y ddaear am dri diwrnod a thair nos. Bydd pobl Ninefe yn codi yn y Farn gyda'r genhedlaeth hon ac yn ei chondemnio hi; oherwydd edifarhasant hwy dan genadwri Jona, ac yr ydych chi'n gweld yma beth mwy na Jona. Bydd Brenhines y De yn codi yn y Farn gyda'r genhedlaeth hon ac yn ei chondemnio; oherwydd daeth hi o eithafoedd y ddaear i glywed doethineb Solomon, ac yr ydych chi'n gweld yma beth mwy na Solomon.'

(Mathew 12:38–42)

Felly, os cyfodwyd chi gyda Christ, ceisiwch y pethau sydd uchod, lle y mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw. Rhowch eich bryd ar y pethau sydd uchod, nid ar y pethau sydd ar y ddaear. Oherwydd buoch farw, ac y mae eich bywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw. Pan amlygir Crist, eich bywyd chi, yna fe gewch chiwch eich amlygu gydag ef mewn gogoniant. Rhowch i farwolaeth,

felly, y rhannau hynny ohonoch sy'n perthyn i'r ddaear: anfoesoldeb rhywiol, amhurdeb, nwyd, blys, a thrachwant, sydd yn eilunaddoliaeth. O achos y pethau hyn y mae digofaint Duw yn dod ar y rhai anufudd. Dyna oedd eich ffordd chwithau o ymddwyn ar un adeg, pan oeddech yn byw yn eu canol. Ond yn awr, rhowch heibio'r holl bethau hyn: digofaint, llid, drwgdeimlad, cabledd a bryntni o'ch genau. Peidiwch â dweud celwydd wrth eich gilydd, gan eich bod wedi diosg yr hen natur ddynol, ynghyd â'i gweithredoedd, ac wedi gwisgo amdanoch y natur ddynol newydd, sy'n cael ei hadnewyddu mewn gwybodaeth ar ddelw ei Chreawdwr. Nid oes yma ragor rhwng Groegiaid ac Iddewon, enwaediad a dienwaediad, barbariad, Scythiad, caeth, rhydd; ond Crist yw pob peth, a Christ sydd ym mhob peth.

(Colosiaid 3:1–11)

Mae tair thema'n gweu drwy'i gilydd yn y ddau ddarlenniad hyn. Y Groes yw'r cyntaf. Mae Mathew yn gweld y tridiau a dreuliodd y proffwyd Jona ym mol y morfil fel teip o brofiad Crist rhwng y Croeshoeliad a'r Atgyfodiad. Yn y Llythyr at y Colosiaid darlunnir y Cristion yn cael ei gyfodi gyda Christ i fywyd newydd.

Yr ail thema yw newid. Y newid a ddaeth yn sgil edifeirwch yn yr Efengyl yn ôl Mathew. Gofynnodd yr ysgrifenyddion

a'r Phariseaid am arwydd gan Iesu, ond yr alwad i edifeirwch oedd yr arwydd y dewisodd Ef ei chyhoeddi. Edifeirwch oedd testun cyson Iesu, yr alwad i droi, i wynebu i'r cyfeiriad arall, i newid. Caiff y newydd yn y Llythyr at y Colosiaid ei gyflwyno fel y newid sy'n dilyn o arfer y bywyd newydd a gynigir i'r Cristion gan Grist.


Y drydedd thema yw'r undod a geir yng Nghrist. Os gallai trigolion Ninefe a Brenhines Seba ddysgu gwers neu ddwy i'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid, gwyddai Paul o'r gorau bod Crist yn gweithredu ym mywydau pobl ar lefel mwy sylfaenol o lawer na'r gwahaniaethau ethnig sy'n bodoli rhyngddynt. A dyna neges werthfawr y mae angen inni lynu wrthi mewn oes pan fo'r gwahaniaethau ethnig sy'n bodoli rhwng plant dynion yn achosi'r fath rwygiadau ac yn creu'r fath dinistr. Yng Nghrist a'i Groes a'r bywyd newydd a geir drwy ei Atgyfodiad y mae gobaith y ddynoliaeth am edifeirwch a chymod ac undod.

## TASG Y MILWR – ATEB

- Ymerawdwr a orchmynnodd i'r holl Iddewon fynd allan o Rufain – **CLAUDIUS** Actau 18:2
- Gŵr a fu'n gysur i Paul yn Rhufain ac Effesus – **ONESIFFORUS** 2 Timotheus 4:19
- Dinas y bu Paul yn garcharor ynddi – **RHUFAIN**
- Cristion Rhufeinig y gyrodd Paul ato ef, ynghyd â'i chwaer – **NEREUS** Rhufeiniad 16:15
- Gŵr a ddaeth a rhoddion o un o eglwysi Macedonia i Paul – **EPAFFRODITUS** Philipiaid 4:18
- Milwr Rhufeinig a achubodd fywyd Paul ddwywaith – **LYSIAS** Actau 23:26–24:22
- Dinas lle bu'r Iddewon yn cyffroi meddyliau'r Cenedloedd yn erbyn y Cristnogion – **ICONIUM** Actau 14: 2
- Mab Eliffal – **UR** – 1 Cronicl 11:35
- Thesaloniaid a aeth gyda Paul ar un o'i deithiau – **SECWNDUS** Actau 20:4



**CORNELIUS**  
Actau 10:1



# Golygyddol

## 'eiddo'r Arglwydd yw'r ddaear ...'

Mae'r 'Diolchgarwch' yma, neu efallai wedi bod mewn ambell eglwys, ac mae'r adeg yma o'r flwyddyn yn gyfle rhagorol inni roi sylw i Dduw'r Crëwr a'i greadigaeth a chofio mai 'eiddo'r Arglwydd yw'r ddaear ...' (Salm 24:1)

Ac yng nghyfnod y datblygiadau gwyddonol/technolegol cyson, mae'n dda cofio mai Duw piau'r cwbl a ninnau'n cael y fraint o fod yn stiwardiaid cyfrifol dros y cyfan.

### Emynau'r diolchgarwch

Fel ag yng nghyfnod y Nadolig a'i garolau, am ryw reswm mae 'na emynau yn Gymraeg sydd ddim ond wedi'u cysylltu â'r Diolchgarwch. Dyna chi emyn Elfed: 'Pob peth ymhell ac agos' (C.Ff. 130) dim ond ar Ddiolchgarwch y clywir yr emyn yn cael ei ganu, a dwn i ddim pam chwaith. Wedyn dyna gyfieithiad John Morris-Jones o waith F. S. Pierpoint: 'Am brydferthwch daear lawr' (C.Ff. 104) neu gyfieithiad Elfed o emyn Joachim Neander: 'Nef a daear, tir a mor' (C.Ff. 116), a geiriau Gomer M. Roberts: 'Mae'r Arglwydd yn cofio y dryw yn y drain'. (C.Ff. 157)

### Gwersi cyfoethog

Mae'r rhestr yn hwy dwi'n siŵr. Mae 'na wersi cyfoethog iawn ymhob un o'r emynau yma sy'n cyfeirio at Dduw'r Crëwr, a'r bwysicaf o'r rheini ydi pa mor ddibynnol ydan ni ar Dduw ac y dylem dreulio rhannau helaeth o bob diwrnod yn diolch iddo am ei fawr ofal, a chofio mai Duw ydi Duw – 'Ydwyf yr hwn ydwyf' ydi o'n gyson. Ni ellir dadlau â Duw, faint bynnag y ceisiwn ni wneud hynny.

### Hela neu godi 'sgwarnog

Dwi'n un eithaf da weithiau am godi 'sgwarnog a mynd ar ei ôl, a dydw i ddim yn amau o gwbl nad oes angen gwneud hynny ar dro, dim ond ein bod ni'n gwneud hynny'n gyfeillgar. A dyma'r sgwarnog y tro hwn – *Caneuon Ffydd!* Ydw i'n dwp 'ta be? (Plis peidiwch ag ateb!) Dwi'n mynd am dro drwy'r Adran 'Duw'r Creawdwr a'r Cynhaliwr' yn y gyfrol, ac wedi aros wrth emyn 79, 'Mawr ddyled arnom sydd i foli lôr y nef.' lawn. Ardderchog. Emyn Diolchgarwch da. Neidio wedyn i emyn 81 at eiriau Rebecca Powell, sy'n emyn Diolch am y tymhorau: 'Pan ddaw pob tymor yn ei dro'.

lawn. Ond hold on, emyn 80 ydi un Pantycelyn: 'Mae'r Brenin yn y blaen' sydd, dybiwn i yn emyn ar gyfer yr eglwys: 'Ni awn, ni awn dan ganu i'r lan, cawn weld ein concwest yn y man.' Darllenwch yr emyn, a gofynnwch i chi'ch hun, beth affliw mae emyn fel hyn yn ei wneud ynghanol emynau sy'n canmol y Crëwr a'i Greadigaeth? Mae'r un broblem gen i yn yr adran nesaf – 'Duw'r Tad'. Beth ar wyneb daear mae emyn Ann Griffiths (C.Ff. 189) sy'n sôn am 'Ddwy natur mewn un person' yn ei wneud yn yr adran hon? Onid cyfeirio y mae Ann at Iesu Grist drwy gydol yr emyn cyfoethog hwn? Dwi ddim yn amau bod yna enghreifftiau eraill. Os mai thematig ydi cynnwys llyfr i fod, wel thematig amdani ynde!

### Efengyl werthfawr

Mae gennym Efengyl fawr i'w harddel a'i chyhoeddi, yn dechrau gyda Duw'r Crëwr, OND, ac mae angen clamp o ond yn y fan hyn, mae'n Efengyl sy'n mynd ymlaen o'r creu i sôn am gyflwr pobl, i sôn am gyflwr gwareiddiad, a hefyd i gynnig iachâd adferiad llawn i'r cwbl drwy Iesu Grist a'i farwol glwy'.

Iwan Llywelyn Jones

Ganwyd Ieuan Glan Geirionydd, neu Evan Evans yn Nhan y Celyn, ger Trefriw yn 1795, a bu'n ffodus yn ei rieni. Roedd ei dad yn llenor amryddawn ac yn Gristion gloyw, a'i fam, hithau'n wraig o synnwyr cyffredin cryf a gwybodaeth eang. Cafodd ysgol dda, a bu am beth amser yn ysgol rad Llanrwst, a bu yntau ei hun yn cadw ysgol yn Nhalybont, ond torrodd ei iechyd a bu'n rhaid iddo ddychwelyd i Drefriw. Ymunodd â'r Eglwys Esgobol ac aeth i Goleg St Bees i baratoi ar gyfer gweinidogaeth yr eglwys, ond eto torrodd ei iechyd. Bu'n gurad yn Christleton ac Ince, ond dychwelodd adref o Drefriw yn 1852, ac ymhen dwy flynedd penodwyd ef i guradiaeth Rhyl, ac yno y bu farw yn 1855 yn drigain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn Nhrefriw.

Roedd ei lafur llenyddol yn fawr ac ysgrifennodd lawer i gylchgronau, a dechreuodd gylchgrawn ei hun: *Y Gwladgarwr*, a bu'n golled fawr iddo. Ef hefyd a gyhoeddodd y Beibl Darluniadol, a chollodd arian ar yr anturiaeth hon hefyd. Canodd awdlau a phryddestau a chywyddau, ond ei emynau sydd wedi ei anfarwoli.

Dyma linellau cyntaf rhai o'i emynau mwyaf adnabyddus:

At un a wrendy weddi'r gwan  
(C.Ff. 284)

Ar fôr tymhestlog teithio'r wyl  
(C.Ff. 167)

Y mae ganddo hefyd rai cyfieithiadau enwog o emynau Saesneg sydd yn wir, weithiau, yn rhagori ar y gwreiddiol, yn arbennig felly:

Dyrchafer enw Iesu cu  
(C.Ff.235)

Gelwir ef weithiau yn 'fardd y ddwy afon', sef afon Conwy ac afon Iorrdonen, a rhodiodd lawer ar lannau'r naill a myfyrio llawer am y llall. Bu'n wael ei iechyd trwy gydol ei oes, ac yn ddigalon yn fynych, a hyn sydd i gyfrif ei fod ef yn dueddol i daro'r nodyn trist yn ei emynau; ond er ei dristwch, colled a fyddai bod heb dant Ieuan Glan Geirionydd yn nhelyn yr Eglwys.

## Salm 117

Molwch yr Arglwydd, yr holl genhedloedd: clodforwch ef, yr holl bobloedd. Oherwydd ei drugaredd ef tuag atom ni sydd fawr: a gwirionedd yr Arglwydd a bery yn dragywydd. Molwch yr Arglwydd.

Pam y molir Duw? **Oherwydd ei drugaredd ef tuag atom ni sydd fawr ...** Gair pwysicaf y cymal hwn yw 'drugaredd'. Trugaredd Duw yw ffynhonnell y mawl.



**Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:****Y Parchg Ddr Alun Tudur**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
Caerdydd, CF23 9BS

Ffôn: 02920 490582


E-bost: [tyst@annibynwyr.cymru](mailto:tyst@annibynwyr.cymru)**Golygyddion**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones  
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
LL49 9UE  
Ffôn: 01766 513138  
E-bost: [IwanLlew@aol.com](mailto:IwanLlew@aol.com)Alun Lenny  
Porth Angel, 26 Teras Picton  
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
Ffôn: 01267 232577 /  
0781 751 9039  
E-bost: [alunlenny@hotmail.co.uk](mailto:alunlenny@hotmail.co.uk)**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe  
ABERTAWE SA7 0AJ

Ffôn: 01792 795888

E-bost: [undeb@annibynwyr.cymru](mailto:undeb@annibynwyr.cymru)**Dalier Sylw!**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan  
Bwllgor Llywio'r Adran  
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr  
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â  
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Y Camino Frances

Mae tair wythnos ers i mi ddychwelyd o Sbaen ar ôl cerdded y Camino Frances – 790km o St Jean Pied de Port yn Ffrainc i sgwâr cadeirlan Santiago de Compostela. Siwrne a aeth â mi o fynyddoedd y Pyrenees, drwy ddolydd a choedwigoedd Navarre; gwinllannoedd Rioja lle'r oedd y grawnwin yn felys; gorwelion pell y Meseta yn Castille a Leon, a phorfa las Galicia.

**Rheswm dros fynd**

Mae 'na gymaint o resymau am gerdded y Camino ag sydd 'na o gerddwyr. Mae'n draddodiad yn Orisson (yr *albergue* neu hostel cyntaf) ar ôl y swper cymunedol, i bawb yn eu tro, ddatgan eu rheswm am y daith. Jan o Dde Affrica yn cerdded er mwyn cadw cwmni i'w wraig. Erbyn iddo gyrraedd Burgos roedd ganddo bothell heintiedig ar ei droed. Yn ddydd stwbwrn, fe brynodd feic a seiclo wrth ei hochr. Fe gafodd crwtyn di-feic yn Santiago dipyn o sioc pan wnaeth Jan roi'r beic iddo.

Roedd Alec a'i wraig wedi breuddwydio am wneud y Camino. Mi wnaeth hi farw yn gynharach eleni. Roedd Alec yn cerdded i Finisterre er mwyn

gwasgaru ei llwch ar ddyfroedd yr Atlantic.

Roeddwn i yn cerdded i gyflawni addewid wnaeth aelod annwyl iawn o'r teulu er mwyn codi arian i Dŷ Hafan.

**Profiad rhyddhaol**

Heblaw am fwyd, teithiwn gyda'r cyfan a feddwn ar fy nghefn. Doedd yna ddim mwy roeddwn ei ishe. Roedd yn brofiad rhyddhaol, ond hawdd dweud hynny a minnau yn fy sgidie heicio ysgafn, pac diddos ar fy nghefn ag 'ap' ar y ffon fyddai'n fy arwain yn ôl i'r Camino ar ôl crwydro. I'r miloedd ar filoedd o bererinion o'm blaen, mi roedd y Camino yn daith beryglus. Fe allai gollwng a chwalu eich potel ddŵr pridd ar y Meseta olygu trengi o syched. Dim ond bownsio a wna poteli dŵr plastic!

**Taith bywyd**

Wrth gerdded drwy'r cymyle i gopa mynydd Pedron, mi wnaeth fy nharo fod y Camino yn alegori eitha agos at fywyd. Ma'r ddwy yn daith, a d'ych chi ddim yn gwbod sut mae'r naill na'r llall yn gorffen. Os oes yna fynydd serth o'ch blaen gwnewch eich camau yn fyrrach, dim edrych lan nac yn ôl, dim ond edrych ar eich traed, a chario mlaen. O dipyn i beth,

fe ddewch drwy'r cwmwl a gwerthfawrogi'r olygfa. Ni fydd raid dringo'r mynydd hwnnw fyth eto. Fel eich camgymeriade a'ch gofidie, ma fe y tu cefn i chi. Fe fyddde sgysie yn yr *albergues* gyda'r nos yn troi'n anochel at bothelli – pla'r pererin! Wrth dynnu fe esgid yn Belorado roedd 'da fi bolleth maint Cymru ar fy sawdl. Gyda *safety-pin*, *iodine a tea tree oil* mi ddes yn dipyn o arbenigwr ar fyrstio pothelli, ond er gwaetha fy oll ymdrechion mi aeth un yn heintus a bu raid i mi fynd i'r adran achosion brys mewn ysbty yn Leon lle cefais *antibiotics*. Dw i'n ddiolchgar dros ben i'r doctor a'r staff am achub fy Nghamino.


Mae hyn yn dod â mi at destun diolch arall; y 287 hael. Ar hyn o bryd mae'r cyfanswm yn £11,797! Mae eich haelioni yn ddigon i dynnu dagre o garreg. Rydw i, Tŷ Hafan a Sefydliad Jac Lewis yn ddiolchgar dros ben i chi.

Mae'r dudalen gasglu ar agor tan 15 Tachwedd. Os hoffech gyfrannu, mi ellwch wneud drwy fynd i:

<https://www.peoplesfundraising.com/fundraising/twm>

Diolch yn fawr.

**Ifan Huw Dafydd**



## Salm 117

Molwch yr Arglwydd, yr holl genhedloedd: clodforwch ef, yr holl bobloedd. Oherwydd ei drugaredd ef tuag atom ni sydd fawr: a gwirionedd yr Arglwydd a bery yn dragywydd. Molwch yr Arglwydd.

Sut y molir Duw? **Molwch yr Arglwydd, yr holl genhedloedd.** Ehangder y mawr! Bwriad Duw yw cael yr holl bobloedd yn un yn ei gariad.

